# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 19fed Tachwedd 2020
am 8.00.yh.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Rowland Jones, Caredig Jones, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, Meiron Davies**

**ABSENOLDEBAU: Ann Tudor, Dylan Edwards, Richard Davies, Dewi Rattray**

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Miss Tachwedd gan y Cadeirydd John Davies.

Dachraeodd y cyfarfod 8.00pm. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (sef Miss gan y clerc a cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis & eiliwyd gan y Cyng Caredig Jones.

20/021 - MATERION YN CODI

1. Derbyniwyd cais gan aelod o'r gymuned ynghylch y bin Gwastraff Cyffredinol yn sgwâr y pentref. Mae'r bin yn cael ei ddefnyddio i waredu cewynnau budr a baw cŵn. A oes unrhyw bosibilrwydd o gael arwyddion yn gofyn na chaiff yr eitemau hyn eu gwaredu yn y bin cymunedol yma. Dylid cael gwared ar eitemau o'r fath trwy ddulliau priodol; gwastraff cartref ei hun ar gyfer cewynnau a biniau baw cŵn sydd i gael yn manau yn y pentref. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am arwyddion o'r fath.

20/022 – LLYTHYRON

1. Posteri i arddangos wrth Ben Lake, Plaid Cymru
2. Llythr o ddiolch oddiwrth Clwb Pel Droed Llanilar am y rhodd ariannol o £300 a derbynwyd wrth y Cyngor Cymuned. Maent yn help fawr i'r clwb yn ystod yr amser ansicr yma.
3. Ebost wrth Sarah Evans UK Parliament yn dwyn sylw at gronfa cefnogi I Estyn cymorth at pobol bregus yn yn cymuned.
4. Manylion Coridor Rheilffordd Strategol Newydd ar gyfer Gorllewin Cymru wrth Traws Link Cymru

20/023 - ARIANNOL

1. Ni oedd payslips y clerc ar gael i arddongos y cynghorwyr yn y cyfarfod, felly penderfynnwyd gadael nes y cyfarfod nesaf.
2. Anfoned TME Electrical £240. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

20/024 – CYNLLUNIO

Cais wedi eu dderbyn; A200847
Ymgeisydd: Jason Richards
Safle: Ystwyth Garage Llanilar
Y Bwriad: Change of use of Agricultural grazing land into additional customer parking.

Penderfynnwyd cefnogi'r cais yma. Cynnigwyd gan y Cyng.Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytun.

Cais wedi eu dderbyn; A200845
Ymgeisydd: A & E Rumble

Safle: 16 Close Henri Llanilar
Y Bwriad: Erection of 2 storey extension.

Penderfynnwyd cefnogi'r cais yma.  Cynnigwyd gan y Cyng.Caredig Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.

20/025 - UNRHYW FATER ARALL

1. Oes bosib cael esboniad pam ma dal arwyddion 'ffordd ar gau' ar Rhiwfaen.  Esbonwyd fod y cyngor yn aros i contractwyr ddod yn ol i gorffen y gwaith, ac mae hyn yn cymrud yn hirach na'r ddisgwyl.
2. Mi fydd coeden Nadolig y Pentref yn cael ei rhoi I fynnu erbyn Dydd Sul 1af miss Rhagfyr ond yn anffodus, oherwydd rheolau covid ni fydd Noson Gloeuo'r Goeden yn digwydd eleni.

Orffennwyd y gyfarfod am 8.50pm